# YMWELIAD DATBLYGU MASNACH RHITHWIR - Y Swistir

## Chwefror a Mawrth 2021



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sectorau Allweddol

Bwyd a Diod

**Dyddiad Cau:**
8 Ionawr 2021

Mynd â Chymru i'r Byd

## Y Cynnig

Rydym yn gwahodd ceisiadau oddi wrth aelodau Clwb Allforio Bwyd a Diod Cymru i gymryd rhan yn Ymweliad Datblygu Masnach rhithwir yn targedu y Swistir, a gefnogir gan Bwyd a Diod Cymru.

Bydd y dull rhithwir hwn yn rhoi cyfle i chi gwrdd â darpar brynwyr, dosbarthwyr a mewnforwyr trwy fideo-gynadledda heb orfod ymrwymo cymaint o'ch amser gwerthfawr ag y mae Ymweliad Datblygu Masnach llawn yn ei olygu.

## Pam Y Swistir?

- Mae'r DU wedi arwyddo cytundeb masnach gyda'r Swistir.
- Y Swistir yw'r wythfed marchnad allforio fwyaf y DU ac un o bartneriaid masnachu agosaf y DU.
- Gydag amser hedfan o dan ddwy awr a dewis eang o hediadau dyddiol, mae'n farchnad hawdd i'w wasanaethu.
- Gydag incwm uchaf yn Ewrop y pen, mae'r Swisiaid yn ddefnyddwyr sydd â phŵer gwario uchel. Mae galw am cynhyrchion newydd, premiwm ac o ansawdd uchel.
- Mae diddordeb arbennig mewn cynhyrchion organig, caws, bwyd anifeiliaid anwes, alcohol crefft a sawsiau, yn ogystal â label preifat (ym mhob categori). (Nodyn - Bydd y Swistir yn cydnabod mewnforion nwyddau'r DU sy'n cael eu marchnata fel rhai organig gyda thystysgrif archwilio gan gorff rheoli yn y DU).
- Mae Saesneg yn cael ei siarad yn eang, ac mae systemau cyfreithiol a rheoliadol y Swistir yn debyg i systemau'r DU.

## Cymhwyster

Mae'r Ymweliad Datblygu Masnach rithwir hwn yn agored i allforwyr newydd a phrofiadol i'r rhanbarth hwn.

Nid oes unrhyw ffi i gymryd rhan yn yr Ymweliad Datblygu Masnach rhithwir hwn.
Mae'r Ymweliad Datblygu Masnach rhithwir hwn wedi'i gyfyngu i 10 cais.
Defnyddiwch y ddolen hon ar gyfer y ffurflen gais ar-lein.



## Rhai Pethau i'w Hystyried

Mae gan y Swistir bedair iaith genedlaethol: Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg a Rwmaneg. Bydd angen i chi feddwl am gyfieithu eich dogfennau i un neu fwy o ieithoedd y Swistir.

Bydd angen i'ch labelu cynnyrch gydymffurfio â chyfraith y Swistir.

Rhennir oddeutu 75% o'r farchnad adwerthu yn y Swistir gan ddau fanwerthwr mawr.

Os bydd darpar brynwr yn gofyn am samplau cyn neu ar ôl cyfarfod, byddwch chi yn gyfrifol am anfon y samplau a'r holl gostau cludo cysylltiedig. Disgwylir i gynhyrchwyr ymateb i geisiadau am wybodaeth bellach neu samplau mewn modd amserol.

Er nad oes unrhyw gost i gymryd rhan yn yr Ymweliad Datblygu Masnach rithwir hwn, bydd peidio â mynychu, neu dynnu'n ôl o'r Ymweliad Datblygu Masnach rithwir ar ôl i'r gwaith ddechrau, yn golygu eich bod yn atebol am unrhyw gostau a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae ymatebion hwyr i geisiadau am wybodaeth bellach a pheidio â chymryd rhan mewn cyfarfodydd prynwyr a archebwyd ymlaen llaw yn niweidiol iawn i'r cynhyrchwyr, ond hefyd i sector bwyd a diod Cymru yn ei gyfanrwydd. Felly, mae disgwyl i'r cynhyrchwyr sy'n cymryd rhan ymrwymo i'r broses gyfan a gweithredu fel "llysgenhadon" ar gyfer sector bwyd a diod Cymru.

## Dyddiadau Allweddol

Bydd gennych alwadau gyda'r partner penodedig yn y farchnad yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 18 Ionawr 2021.

Bydd Briff Marchnad yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 8 Chwefror 2021.

Bydd cyfarfodydd un i un gyda phrynwyr, mewnforwyr a dosbarthwyr cyn-gymhwyso yn cael eu cynnal yn ystod diwedd mis Chwefror a dechrau mis Mawrth.

Nid oes unrhyw ffi i gymryd rhan yn yr Ymweliad Datblygu Masnach rhithwir hwn.
Mae'r Ymweliad Datblygu Masnach rhithwir hwn wedi'i gyfyngu i 10 cais.
Defnyddiwch y ddolen hon ar gyfer y ffurflen gais ar-lein.